

Mynwent Gyhoeddus TREFDRAETH Public Cemetery **Rheolau a Rheoliadau – Rules and Regulations**

1. Cyngor Cymuned Bodorgan sydd yn gyfrifol am reolaeth a goruchwiliad cyffredinol o gyfleusterau y fynwent hon, gan gynnwys lleoliad beddau yn unol a Rheol 2
2. Ni dderbynia y Cyngor unrhyw gais i byrnu ymlaen unrhyw fath o leoliad bedd. Gwneir hyn ar sail fod y gwasanaeth ar gael i y rhai hynny sydd ei angen nawr a ddim yn hwyrach, ac hefyd i sicrhau fod lleihau costau i bawb trwy hwyluso agoriad gyda peiriant.
3. Ar gais ir Clerc am ganiatâd i gladdu mewn lleoliad bedd newydd, ac ar dalu y ffi briodol fe wnaiff Clerc benodi y lleoliad bedd nesaf sydd ar gael er mwyn galluogi y gladdedigaeth fynd ymlaen
4. Bydd holl gost a threuliau o agor y bedd (yn cynnwys ailagor) yn gyfrifoldeb y sawl a wnaeth y cais ir gwaith gael ei gario allan. Fe fydd y person hwnnw hefyd yn gyfrifol am glirio y safle pan fydd y gladdedigaeth wedi cwblhau.
5. Fe ganiateir y defnydd o beiriannau mecanyddol (peiriannau bychan) o fewn y fynwent os bydd angen. Fe fydd yn hanfodol defnyddio amddiffyniad trac/olwynion pan yn wlyb.
6. Ar agor bedd newydd, fe dderbynia y teulu yr agorwyd ar ei rhan yr “Hawlfraint Unigol i Gladdu” yn y bedd yna, a fydd gyda hwy am 70 mlynedd. Bydd modd ymestyn yr hawlfraint hon ar gais y teulu ar ddiwedd y cyfnod, ond os na fydd y teulu wedi mynegi dymuniad i ymestyn yr hawlfraint, fe fydd perchnogaeth lleoliad y bedd yn dychwelyd ir Cyngor.
7. Yn unol a gorchmynion statudol fe fydd yn angenrheidiol sicrhau fod o leiaf 700 milimetr o bridd uwchben yr arch olaf a gleddir yn y bedd.
8. Fe fydd yn rhaid ir llwybr rhwng pob rhes o feddi i fod o leiaf dwy droedfedd o led (610 milimetr).
9. Ni chaniateir gosod unrhyw garreg fedd neu gofeb heb gysylltu gyda'r Clerc a derbyn caniatâd a thalu y ffi briodol.
10. Bydd yn rhaid i bob Carreg Fedd fod wedi ei gosod mewn trefn i gydredeg ar Cerrig eraill yn yr un rhes.
11. Carreg fedd heb fod yn uwch na 1.2 metr fydd yr unig addurn a ganiateir
12. Caniateir ffiol (vase) i ddal blodau ar y bedd ond dim addurn arall o unrhyw fath..
13. Caniateir cerfiad syml a gweddus ar y garreg neu gofeb a hefyd caniateir cynnwys llun o'r ymadawedig ar y garreg.
14. Rhaid i'r person sydd yn gosod y garreg glirio pridd ar ei ôl o'r fynwent.
15. Cyn symud carreg o'r fynwent ai ail osod fe fydd angen caniatâd y Clerc a thalu y ffi briodol.
16. Bydd angen caniatâd y Clerc a thalu y ffi briodol cyn i ychwanegu cerfiad neu argraffiad ychwanegol ar garreg yn ei lleoliad.
17. Bydd cyfrifoldeb am gynnal a diogelwch unrhyw garreg yn gorwedd gyda'r teulu a oedd yn gyfrifol am ei gosod ac gyda ei etifedd cyfreithiol.
18. Ac eithrio y ffiol a gyfeirir ato yn Rheol 12, ni chaniateir gosod unrhyw dorchau neu flodau ffug, llwyni, fasys neu lestri blodau sefydlog, addurniadau, cerrig mal, graean, cerrig palmant na chyrbau neu unrhyw fath o ffens o amgylch unrhyw fedd neu lecyn wedi ei glustnodi ar gyfer gweddillion cyrff a losgwyd.
19. Ni chaniateir plannu coed neu lwyni o fewn y fynwent.

NODIADAU.

- Y Clerc ydi y Clerc i Gyngor Cymuned Bodorgan.
- Y ffioedd priodol fydd y rhai hynny sydd yn cael ei pennu gan y Cyngor Cymuned ai gosod allan yn y daflen ffioedd a fydd yn cael ei hadolygu yn flynyddol gan y Cyngor.
- Bydd modd archwilio y cofrestr beddi preifat trwy drefniad gyda'r Clerc.

Mae yr holl reolau a rheoliadau blaenorol yn cael ei diddymu gyda'r uchod yn cymryd ei lle .

Ged o Ragfyr 2011.